

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Deintyddfa Wilton House, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad arolygu: 18 Mawrth 2024

Dyddiad cyhoeddi: 18 Mehefin 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	8
• Ansawdd Profiad y Claf	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4. Y camau nesaf	19
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Wilton House, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 18 Mawrth 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff yn Neintyddfa Wilton House yn amlwg yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Nododd pob un o'r 13 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda. Gwelsom hefyd fod y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas
- Roedd safle'r practis yn gwbl hygyrch, gan gynnig deintyddfeydd ar y llawr gwaelod a thoiled cwbl hygyrch i gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan. Roedd y deintyddfeydd a'r dderbynfa hefyd yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus, ac roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Gwelodd AGIC fod trefniadau da ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd aelodau'r tîm deintyddol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael gfael ar gyngor ac arweiniad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r practis ddatblygu polisi rheoli risg a'i roi ar waith cyn gynted â phosibl
- Rhaid i reolwr y practis sicrhau y caiff rhestrau gwirio deintyddfeydd eu llofnodi bob dydd gan nyrs ddynodedig

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.
- Roedd arwyddion clir ar gyfer allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng, ac roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn ardal derbynfa'r practis.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn Neintyddfa Wilton House.

Roedd amrywiaeth o bolisiau ysgrifenedig ar waith yn y practis, a oedd ar gael i'r staff i'w cefnogi wrth eu gwaith. Roedd pob polisi a welsom yn gyfredol ac yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o bolisiau ar gael yn hawdd i'r staff i'w helpu wrth eu gwaith
- Roedd y staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Wrth i mi fynd yn hŷn, rwy'n fwy nerfus pan fydda i'n mynd at y deintydd. Fodd bynnag, mae pob aelod o'r staff bob amser yn gwneud i mi ymlacio ac yn rhoi tawelwch meddwl i mi.”

“Rwyf bob amser wedi cael gwasanaeth a thriniaeth ardderchog. Mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar, yn effeithlon, yn ofalgar ac yn ymroddedig.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd pob un o'r 13 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr fod y tîm deintyddol wedi holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. O'r 13 o ymatebwyr, roedd 12 yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylent ei wneud pe bai ganddynt neu argyfwng, a gyda phwy y dylent gysylltu. Nododd y claf arall nad oedd hyn yn berthnasol iddo.

Roedd enw'r practis i'w weld yn amlwg y tu allan i'r practis, ynghyd â gwybodaeth am oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng.

Roedd gwybodaeth am roi'r gorau i smygu ar gael yn yr ardal aros ac roedd arwyddion 'dim smygu' i'w gweld yn glir yn y practis.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau ar waith yn y practis er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion. Roedd drysau pob deintyddfa yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau gan roi digon o breifatrwydd ar gyfer sgysiau cyfrinachol.

Dyweddodd pawb a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch. Roedd yr unigolion a ymatebodd i'r holiadur hefyd yn cytuno bod y staff wedi gwrandio arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau i gyd yn ystod eu hapwyntiad.

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn yr ardal aros.

Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn

Dyweddodd pob un o'r 13 o ymatebwyr i'r holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael iddynt.

Dyweddodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn perthynas ag apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, yn dibynnu pryd y dechreuodd yr oedi. Cadarnhaodd y staff fod y cleifion yn cael cynnig aildrefnu'r apwyntiad pe bai angen.

Cadarnhaodd rheolwr y practis nad oedd unrhyw system trefnu apwyntiadau ar-lein ar waith yn y practis. Gallai cleifion drefnu apwyntiadau, gan gynnwys apwyntiadau brys, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb os oeddent yn ymweld â'r practis.

Dyweddwyd wrthym fod pob deintydd yn cael slotiau penodol bob dydd i'w defnyddio ar gyfer apwyntiadau brys yn unig.

Dyweddodd 12 o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd yr ymatebydd arall ei fod yn teimlo ei bod yn 'eithaf hawdd' cael apwyntiad. At hynny,

dywedodd pob un o'r 13 o gleifion y byddent yn gwybod sut i gael gfael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd 12 o'r cleifion a gwblhaodd holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Dywedodd yr ymatebydd arall wrthym mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith.

Cadarnhaodd rheolwr y practis nad oedd unrhyw aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn gweithio yn Neintyddfa Wilton House. Dywedodd wrthym hefyd nad oedd unrhyw gleifion presennol yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg yn ystod eu hapwyntiad. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod y staff yn ymwybodol o bwysigrwydd siarad â'r cleifion yn eu dewis iaith a darparu'r cynnig rhagweithiol.

Roedd gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r practis drwy'r bwrdd iechyd lleol pe bai claf yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg neu mewn iaith arall.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nad oedd gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, ers ein hymweliad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion wedi cael ei chyfieithu a'i harddangos yn ddwyieithog mewn ardaloedd cymunol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym gallai dogfennau print bras gael eu darparu ar gais.

Roedd rhestr staff gyfredol i'w gweld yn glir yn yr ardal aros ac roedd copiau o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael wrth ddesg y dderbynfa. Yn ystod yr arolygiad, roedd gwybodaeth am ddelio â chleifion treisgar neu ymosodol a datblygu a hyfforddi cyflogeion yn briodol, ar goll o'r daflen wybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, ers ein hymweliad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod y ddogfen hon bellach yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen fel y'i hamlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cynhwysfawr ar waith yn y practis. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth eto. Ers ein hymweliad, rydym wedi gweld tystiolaeth o dystysgrifau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer pob aelod o'r staff.

Gwnaethom gadarnhau bod y lleoliad yn cynnig mynediad llawn i bobl anabl. Roedd toiled cwbl hygyrch i gleifion ar gael yn ogystal â deintyddfeydd ar y llawr gwaelod i unrhyw gleifion â phroblemau symudedd.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Wrth gyrraedd y practis, gwelodd AGIC fod y safle yn cael ei gynnal i safon uchel, y tu mewn a'r tu allan. Roedd gan y practis dwy ystafell aros, un ar bob llawr. Roedd y naill a'r llall o faint addas ar gyfer nifer y deintyddfeydd.

Roedd gan y practis ddigon o gyfleusterau newid a chyfleusterau storio. Roedd ystafell staff ddynodedig a chyfleusterau newid a chypyrddau clo i'r staff wedi'u lleoli yn atig yr adeilad.

Yn ystod yr arolygiad, nid oedd gan y practis gynllun parhad busnes ar waith. Fodd bynnag, ers ein hymweliad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod cynllun cynhwysfawr wedi cael ei ysgrifennu a'i roi ar waith ar gyfer y practis.

Wrth adolygu polisiâu'r practis, nodwyd gennym nad oedd polisi rheoli risg ar waith yn Neintyddfa Wilton House.

Mae angen i'r practis ddatblygu polisi rheoli risg a'i roi ar waith cyn gynted â phosibl.

Rhoddodd y staff gopi i ni o asesiad risg diogelwch tân cyfredol ar gyfer y practis. Gwelsom fod cyfarpar diogelwch tân ar gael i'r staff ei ddefnyddio pe bai tân. Roedd contract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol ar waith. Wrth edrych ar hyfforddiant staff, gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff yn meddu ar hyfforddiant cyfredol ar ddiogelwch tân.

Roedd arwyddion clir ar gyfer allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng, ac roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn ardal derbynfa'r practis.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom dystiolaeth bod polisiâu a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn y practis.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer dihalogi cyfarpar. Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da a gwelsom fod yr offer wedi'i ddyddio a'i storio'n briodol.

Er bod rhestr wirio deintyddfa ddyddiol i'w chael ym mhob deintyddfa, nid oeddent yn cael eu llofnodi. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r staff yn ystod ein hymweliad a gofyn am i nyrs ddynodedig sicrhau bod y rhestrau gwirio hyn yn cael eu llofnodi bob dydd yn y dyfodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer cwblhau a llofnodi rhestrau gwirio deintyddfa dyddiol.

Yn ystod ein harolygiad, ni welsom unrhyw dystiolaeth o amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau. Fodd bynnag, yn dilyn ein hymweliad, cafodd copïau o amserlenni glanhau, a oedd wedi'u rhoi ar waith i'w cwblhau bob dydd, eu hanfon atom.

Wrth ymweld â'r practis, cadarnhaodd y staff nad oedd unrhyw fin penodol yn cael ei ddefnyddio i gael gwared ar Gypswm. Fodd bynnag, ers ein harolygiad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod bin penodol wedi'i archebu a'i fod yn cael ei ddefnyddio i gael gwared ar Gypswm.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfleusterau hylendid dwylo effeithiol ar waith a bod cyfarpar diogelu personol (PPE) hefyd ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio.

Wrth edrych ar hyfforddiant staff, gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Rheoli Meddyginiaethau

Yn ystod ein hymweliad â'r practis, cadarnhaodd y staff nad oedd unrhyw bolisi rheoli meddyginiaethau ar waith. Ers hynny, rydym wedi gweld tystiolaeth bod staff wedi datblygu polisi rheoli meddyginiaethau priodol i'r practis.

Gwnaethom edrych ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y practis. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod dyddiad defnyddio rhai rhwymynnau a masgiau wyneb wedi mynd heibio. Gwnaeth rheolwr y practis archebu rhwymynnau a masgiau wyneb newydd tra roeddem yn y practis. Ers yr arolygiad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod yr eitemau hyn wedi cael eu derbyn.

Yn ystod ein harolygiad, nodwyd gennym nad oedd unrhyw gofnodlyfrau ar gael mewn deintyddfeydd i gofnodi nifer presgripsiynau'r GIG. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r staff ac, erbyn diwedd yr arolygiad, roedd cofnodlyfrau wedi'u cyflwyno ym mhob deintyddfa i'w cwblhau yn y dyfodol.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwnaethom gadarnhau fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Dadebru Cardio-pwlmonaidd (CPR) diweddaraf.

Ar ddiwrnod ein harolygiad, cadarnhaodd y staff mai dim ond un swyddog cymorth cyntaf oedd yn y practis. Gwnaethom argymhell y dylai unigolyn arall gwblhau'r hyfforddiant er mwyn sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf yn bresennol bob amser. Cafodd hyfforddiant ei drefnu ar gyfer aelod arall o'r staff yn ystod ein hymweliad ac, ers hynny, rydym wedi gweld tystiolaeth bod y cwrs wedi'i gwblhau.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwnaethom edrych ar bolisiâu a gweithdrefnau diogelu'r practis. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion cyswllt lleol i roi gwybod am unrhyw bryderon.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac wedi cael y lefel briodol o hyfforddiant.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus ac roeddent wedi cael eu gorffen i safon dda.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf. Yn ystod ein hymweliad, nid oedd unrhyw bosteri yn cael eu harddangos yn y deintyddfeydd a oedd yn nodi risgiau a manteision archwiliadau pelydr-X. Ers yr arolygiad, mae rheolwr y practis wedi darparu tystiolaeth ffotograffig o bosteri priodol yn cael eu harddangos.

Roedd gan y practis gamerâu teledu cylch cyfyng yn y dderbynfa yn rhan flaen yr adeilad. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi teledu cylch cyfyng ar waith. Ers ein hymweliad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod polisi perthnasol wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roedd trefniadau ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau.

Cofnodion y Cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi anghysondebau wrth gofnodi'r wybodaeth isod:

- Nid oedd profion sgrinio canser y geg yn cael eu cofnodi
- Dewis iaith y cleifion
- Aseiad risg yn seiliedig ar bydredd, perio a thraul dannedd
- Llofnodi hanes meddygol cychwynnol
- Cyngor ar roi'r gorau i smygu
- Cynlluniau triniaeth a ddarparwyd

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y wybodaeth a restrir uchod ei chofnodi yn gyson yng nghofnodion y cleifion bob amser.

Hefyd, nododd ein hadolygiad o gofnodion y cleifion welliannau sydd eu hangen o ran pa mor aml y caiff sganiau radiograffig eu cynnal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod sganiau radiograffig yn cael eu cynnal yn amlach fel y nodir.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y cyfleusterau yn briodol ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol a bod prosesau ar waith i weithredu'r practis yn effeithlon.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y cyfleusterau yn y practis yn addas iddynt gyflawni eu dyletswyddau a bod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dystiolaeth bod strwythurau rheoli clir ar waith yn Neintyddfa Wilton House.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn yn ymrwymedig ac yn ymroddedig i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â'r rheolwr cofrestredig neu'r deintyddion arweiniol. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Roedd y staff y gwnaethom gwrrd â nhw yn ystod yr arolygiad yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod rhestr gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r staff. Roedd pob polisi yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Cawsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chawsom gadarnhad bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith hefyd. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

Roedd gan y practis ddatganiad cyfredol o ddiben a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, fel yr amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom edrych ar y polisiau a'r gweithdrefnau cyfredol sydd ar waith mewn perthynas â recriwtio, sefydlu a chadw cyflogion. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cynnwys y wybodaeth berthnasol.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau a phrosesau goruchwyllo blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer y staff. Wrth edrych ar ffeiliau'r staff, gwnaethom gadarnhau hefyd fod y staff wedi cael brechiadau Hepatitis B a bod gwiriadau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith. Gwnaethom edrych ar gofnodion

hyfforddiant y staff hefyd a chadarnhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r hyfforddiant gorfodol.

Roedd polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar waith yn y practis.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer gofyn am adborth gan gleifion. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod holiaduron ar gael i'r cleifion eu cwblhau. Gellid cael adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac adolygiadau ar google hefyd.

Roedd gweithdrefn gwyno'r practis i'w gweld yn glir wrth ddesg y dderbynfa ac yn yr ardal aros. Roedd y ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, fel enw'r person a oedd y gyfrifol am ymdrin â chwynion yn y practis, amserlenni ar gyfer delio â chwynion a manylion cyswllt AGIC.

O'r 13 o gleifion a ymatebodd i'r holiadur, dywedodd 10 wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth. Nododd y tri chlaf arall nad oedd hyn yn berthnasol iddynt.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Gwnaethom gadarnhau bod systemau digonol ar waith yn y practis i gofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod unrhyw wybodaeth yn ymwneud â diogelwch cleifion yn cael ei rhannu ag aelodau'r tîm yn ystod cyfarfodydd staff ac y byddai'n cael ei huwchgyfeirio at y bwrdd iechyd lle bo angen.

Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, gan sicrhau diogelwch data personol. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio'n electronig gan ddefnyddio systemau diogel wedi'u diogelu â chyfrinair.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad WHTM01-05 wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar yn y practis. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi cwblhau archwiliad o gardiau cofnodion eto. Fodd bynnag, ers ein hymweliad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod yr archwiliad hwn wedi'i gwblhau. Yn

ystod ein harolygiad, roedd y practis hefyd wrthi'n cwblhau archwiliad o ragnodi gwrthficrobaidd.

Dyweddod y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y practis wedi rhoi unrhyw adnoddau datblygu tîm ar waith eto. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau deintyddol Matrics Aeddfedrwydd Deoniaeth Deintyddol Cymru. Mae'r Matrics Aeddfedrwydd yn cynnig adnodd datblygu tîm practis deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arferion gorau, ansawdd a diogelwch, gofynion deddfwriaethol a sut mae'n gweithio fel tîm.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Disgrifiodd rheolwr y practis y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau eraill. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau misol yn cael eu cynnal er mwyn monitro'r matrics gofynnol fel rhan o'r broses diwygio contractau â system rheoli ansawdd allanol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod ein harolygiad, nodwyd gennym nad oedd unrhyw gofnodlyfrau ar gael mewn deintyddfeydd i gofnodi nifer presgripsiynau'r GIG.	Os na fydd y cofnodlyfrau hyn ar gael, mae'n bosibl na chaiff presgripsiynau a gollwyd eu nodi.	Gwnaethom godi'r mater hwn â rheolwr y practis a'r prif ddeintydd. Gwnaethom ddweud wrthynt fod angen i ddigon o gofnodlyfrau fod ar gael ym mhob deintyddfa cyn diwedd y dydd.	Erbyn diwedd yr arolygiad, roedd cofnodlyfrau wedi'u cyflwyno ym mhob deintyddfa i'w cwblhau yn y dyfodol.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Deintyddfa Wilton House

Dyddiad yr arolygiad: 18/03/24

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Deintyddfa Wilton House

Dyddiad yr arolygiad: 18/04/24

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Wrth adolygu polisiâu'r practis, nodwyd gennym nad oedd polisi rheoli risg ar waith yn Neintyddfa Wilton House.	Mae angen i'r practis ddatblygu polisi rheoli risg a'i roi ar waith cyn gynted â phosibl.	Rheoliad Deintyddfaeth Breifat 19	Polisi Rheoli Risg wedi'i roi ar waith (copi wedi'i anfon i AGIC)	Lisa Ford	Wedi'i gwblhau 21-05-2024
Er bod rhestr wirio deintyddfa ddyddiol i'w chael ym mhob deintyddfa, nid oeddent yn cael eu llofnodi.	Rhaid i reolwr y practis sicrhau y caiff rhestrau gwirio deintyddfeydd eu llofnodi bob dydd gan nyrs ddynodedig.	Rheoliad Deintyddfaeth Breifat 13	Rhestrau gwirio deintyddfeydd wedi'u rhoi ar waith (copi wedi'i anfon i AGIC)	Lisa Ford	Wedi'i gwblhau 21/05/2024

<p>Wrth adolygu cofnodion y cleifion, nodwyd anghysondebau wrth gofnodi'r wybodaeth isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd profion sgrinio canser y geg yn cael eu cofnodi • Dewis iaith y cleifion • Asesiad risg yn seiliedig ar bydredd, perio a thraul dannedd • Llofnodi hanes meddygol cychwynnol • Cyngor ar roi'r gorau i smygu • Cynlluniau triniaeth a ddarparwyd 	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth a restrir bod amser yn cael ei chofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion.</p>	<p>Rheoliad Deintyddiaeth Breifat 20</p>	<p>Templed nodiadau clinigol wedi'i ddiweddarau yn unol â'r argymhelliad.</p> <p>I'w gadarnhau gan y Prif Ddeintydd bob chwarter.</p>	<p>Dr Neal Benford</p>	<p>21-05-2024</p>
--	---	--	---	------------------------	-------------------

<p>Tynnodd ein hadolygiad o gofnodion cleifion sylw at welliannau sydd eu hangen o ran pa mor aml y caiff sganiau radiograffig eu cynnal</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod sganiau radiograffig yn cael eu cynnal yn amlach fel y nodir.</p>	<p>Rheoliad Deintyddiaeth Breifat 20</p>	<p>Y canllawiau diweddaraf i'w hadolygu, pob argymhelliad i'w weithredu.</p> <p>Trafodaeth adolygiad cymheiriaid blynyddol i'w chynnal.</p>	<p>Dr Neal Benford</p>	<p>20-05-2024</p>
--	---	--	---	------------------------	-------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Lisa Ford

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 22-05-2024